| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 16 Gorffennaf 2026 |
| **Pwnc** | Heriau recriwtio a chadw |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Huw Ynyr<br>Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gwyndaf Parry<br>Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau |
| **Natur a rheswm dros adrodd**<br>Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi (3 .4.8.11.3) bydd y Pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol, yn rhoi sylwadau ar gwmpas a dyfnder y gwaith archwilio allanol ac yn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion. | |

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad yn edrych ar yr heriau recriwtio a chadw y mae Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) yn eu hwynebu. Gan gynnwys pa mor dda mae'r Cyngor yn deall ei heriau, beth mae'n ei wneud mewn ymateb, a sut mae'n adolygu gwerth am arian ei ddulliau.

1.2 Y prif gwestiwn archwilio oedd, "A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i fynd i'r afael â'i heriau recriwtio a chadw?"

## 2.0 Canfyddiadau

2.1 Mae'r adroddiad yn nodi bod y Cyngor yn cymryd ystod eang o gamau i fynd i'r afael â'i heriau recriwtio a chadw, ac mae llawer ohonynt wedi bod yn llwyddiannus. Ond yn gyffredinol, nid yw'n asesu gwerth am arian y dulliau hynny

2.2 Mae dau argymhelliad i'r Cyngor ynghylch:

2.2.1 gwella'r defnydd o ddata i lywio ei ddealltwriaeth o'i dueddiadau gweithlu presennol a dyfodol

2.2.2 trefniadau i asesu gwerth am arian.

2.3 Mae'r ffurflen ymateb rheolwyr yn gosod allan ein ymateb i'r ddau argymhelliad a'r gweithredoedd arfaethedig yn ogystal ag amserlen i'w cwblhau.

## 3.0 Argymhelliad

3.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Ystyried yr adroddiad ac yn derbyn sicrwydd o'i gynnwys.
- Adolygu y ffurflen ymateb a derbyn sicrwydd fod y gweithredoedd arfaethedig yn ymateb addas i'r argymhellion

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Heriau recriwtio a chadw – y bobl iawn ar yr adeg iawn?

Cyngor Sir Ynys Môn

Mehefin 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn i'w gyflwyno o dan y dyletswyddau canlynol:

- adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon (neu beidio) bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau; ac
- adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnyddio fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru, a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni ar post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith rydych chi'n ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI)

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ein canfyddiadau | 5 |
| Argymhellion | 9 |
| Atodiadau | 10 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 11 |
| Amdanom ni | 13 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

1 Fe wnaethom edrych ar yr heriau recriwtio a chadw y mae Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) yn eu hwynebu. Gan gynnwys pa mor dda mae'r Cyngor yn deall ei heriau, beth mae'n ei wneud mewn ymateb, a sut mae'n adolygu gwerth am arian ei ddulliau.

2 Ein prif gwestiwn archwilio oedd, "A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i fynd i'r afael â'i heriau recriwtio a chadw?"

## Pam mae hyn yn bwysig

3 Mae bod â'r gweithlu cywir yn hanfodol i Gyngor ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ei gymunedau ac i gyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol. I wneud hyn, mae angen i'r Cyngor gyflogi'r nifer cywir o weithwyr, gyda'r sgiliau cywir, ar yr adeg gywir.

4 Mae'r rhan fwyaf o wariant dyddiol y Cyngor yn cael ei ddefnyddio i dalu am ei weithlu.

## Yr hyn a ganfuom

5 Fe wnaethom ganfod bod y Cyngor yn cymryd ystod eang o gamau i fynd i'r afael â'i heriau recriwtio a chadw, ac mae llawer ohonynt wedi bod yn llwyddiannus. Ond yn gyffredinol, nid yw'n asesu gwerth am arian y dulliau hynny.

## Yr hyn rydym yn ei argymell

6 Gwnaethom ddau argymhelliad i'r Cyngor ynghylch gwella'r defnydd o ddata i lywio ei ddealltwriaeth o'i dueddiadau gweithlu presennol a dyfodol ac am ei drefniadau i asesu gwerth am arian.

# Ein canfyddiadau

## Deall yr heriau

### Mae'r Cyngor yn deall pa swyddi sy'n anodd eu llenwi ond nid yw'n adolygu'r rhesymau y tu ôl i hyn yn systematig

7 Mae'r Cyngor yn deall pa rolau sy'n anodd eu llenwi o fewn meysydd gwasanaeth unigol ond nid oes ganddo oruchwyliaeth gorfforaethol o hyn. Mae'n cael trafferth recriwtio a chadw staff mewn meysydd arbenigol fel cyfreithiol, hamdden, gwasanaethau cymdeithasol a therapi galwedigaethol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod heriau'n cynnwys cystadleurwydd cyflog, prinder staff cymwys mewn rhai proffesiynau a disgwyliadau newidiol ynghylch cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd. Mae hefyd wedi nodi heriau lleol fel lleoliad daearyddol y Cyngor a'r anhawster i recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg ar gyfer rhai swyddi. Nid oes gan y Cyngor restr o swyddi anodd eu llenwi ar draws y Cyngor na'r rhesymau pam, sy'n cyfyngu ar ei ddealltwriaeth ar lefel gorfforaethol.

8 Gall nodi ei rolau anodd eu llenwi ar draws y Cyngor, a'r rhesymau pam, helpu'r Cyngor i gael gwell dealltwriaeth o'i heriau ac i dargedu ei adnoddau.

9 Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i'w helpu i ddeall ei heriau recriwtio a chadw. Mae'n cael gwybodaeth am ei heriau recriwtio a chadw trwy ei Adolygiad Gweithlu Blynyddol, sy'n holiadur i reolwyr. Mae cyfathrebu effeithiol hefyd rhwng swyddogion Adnoddau Dynol (AD) a phenaethiaid gwasanaeth. Mae hyn yn ffurfio rhan o ddiweddariad cynllunio'r gweithlu i Dîm Rheoli'r Cyngor dair gwaith y flwyddyn, gan helpu uwch arweinwyr i gael trosolwg eang o faterion y gweithlu.

10 Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn coladu data yn gyson mewn ffordd sy'n darparu dealltwriaeth gorfforaethol o bwysau. Mae llawer o'r wybodaeth y mae'r Cyngor yn dibynnu arno yn anffurfiol neu gyda'r potensial i gael ei gasglu yn anghyson, er enghraifft trwy holiaduron. Byddai mynediad at ddata cyson yn helpu'r Cyngor i nodi bylchau neu risgiau i'w anghenion gweithlu. Byddai hefyd yn ei helpu i osgoi problemau sy'n dod i'r amlwg rhag cael eu hanwybyddu a gwneud ymyriadau amserol i fynd i'r afael â'i heriau.

11 Mae gan y Cyngor ymwybyddiaeth o'i ddefnydd o ddulliau rheoli gweithlu fel contractau cyfnod penodol a staff asiantaeth. Mae'n defnyddio contractau cyfnod penodol i ddiwallu anghenion dros dro neu ar gyfer rolau a ariennir gan grant. Dim ond pan nad yw'n gallu recriwtio staff parhaol mae'r Cyngor yn cyflogi gweithwyr asiantaeth.

12 Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn monitro goblygiadau cost defnyddio gweithwyr asiantaeth, yn enwedig o fewn ei wasanaeth cyfreithiol lle mae'r Cyngor wedi gwneud defnydd sylweddol ohonynt. Mae'n amlwg mai dim ond ateb tymor byr y dylai cyflogi gweithwyr asiantaeth fod. Trwy fod yn glir ar ei ddefnydd o ddulliau rheoli gweithlu a pham, mae'r Cyngor yn lleihau'r risg o ddefnyddio atebion tymor byr a allai wneud problemau'n waeth dros y tymor hirach.

## Mynd i'r afael â'r heriau

### Mae'r Cyngor yn cymryd ystod o ddulliau i fynd i'r afael â'i heriau recriwtio a chadw

13 Mae'r Cyngor yn rhagweithiol wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i ddenu a chadw staff. Er enghraifft, mae gan y Cyngor gynnig dysgu a datblygu cryf sy'n darparu cyfleoedd datblygu i staff ar ystod o raddau. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni wedi'u targedu ar gyfer datblygu rheoli ac arweinyddiaeth, cynllun graddedigion a phrofiad gwaith â thâl mewn gofal cymdeithasol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig buddion ffordd o fyw ac ariannol i'w staff, cymorth iechyd a lles ac opsiynau ar gyfer cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd fel gweithio hybrid a hyblyg.

14 Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei brosesau recriwtio drwy system recriwtio ar-lein. Mae'r Cyngor yn credu bod hyn wedi gwneud prosesau yn haws i ymgeiswyr a rheolwyr recriwtio a'i helpu i gynefino dechreuwyr newydd yn gyflymach. Ond nid yw'r Cyngor yn casglu'r data y byddai ei angen arno i ddangos hyn. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu proses gynefino gorfforaethol sy'n cynnwys modiwlau e-ddysgu, llyfryn lles staff, a sesiwn wyneb yn wyneb gydag uwch arweinwyr. Gall proses gynefino effeithlon helpu gweithwyr newydd i deimlo'n ymgysylltiedig ac yn llawn cymhelliant yn ogystal â'u helpu i ddod yn gynhyrchiol yn gyflym yn eu rolau.

15 Mae cael ystod o ddulliau o recriwtio a chadw pobl yn helpu'r Cyngor i sicrhau'r dalent sydd ei angen arno i gyflawni ei wasanaethau a'i amcanion. Mae hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y Cyngor yn gallu recriwtio a chadw pobl a'i helpu i dyfu ei weithlu yn y dyfodol.

16 Mae'r Cyngor yn darparu cyfleoedd i staff helpu i lywio sut mae'n ymateb i heriau recriwtio a chadw. Mae staff yn cael sgyrsiau datblygu blynyddol gyda'u rheolwyr a gallant hefyd roi ei mewnbwn mewn arolwg staff bob dwy flynedd. Gall dechreuwyr newydd hefyd ddarparu adborth trwy holiadur i ddechreuwyr newydd. Mae'r Cyngor yn cynnig cyfweliadau ymadael i staff sy'n gadael y sefydliad, ond nid yw'r Cyngor yn cofnodi faint o staff sy'n manteisio ar y cyfle hwn. Trwy ymgysylltu'n effeithiol â'i weithwyr, gall y Cyngor gael mewnwelediad amserol i'w heriau recriwtio a chadw, gan gynnwys problemau, tueddiadau ac atebion posibl. Gall hyn helpu'r Cyngor i ddeall ble i dargedu ei adnoddau a'i ymyriadau orau.

17 Mae'r Cyngor yn ceisio'n rhagweithiol i weithio gydag eraill i fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda cholegau lleol i gefnogi pobl ag anghenion dysgu ychwanegol i gael cyflogaeth a mynychu sioeau teithiol recriwtio ysgolion. Mae hefyd yn gweithio gyda'r trydydd sector yn y sir i ehangu mynediad at gyflogaeth y Cyngor a chefnogi ymgeiswyr i lenwi ffurflenni cais. Trwy weithio gyda phartneriaid, mae'r Cyngor yn cynyddu cyfleoedd i rannu adnoddau, arbenigedd ac arfer da ac ehangu ei gronfa o ymgeiswyr posibl ar gyfer swyddi anodd eu llenwi.

# Adolygu gwerth am arian

## Nid yw'r Cyngor yn asesu gwerth am arian ei ddulliau o recriwtio a chadw

18 Nid yw'r Cyngor yn casglu data i werthuso ei weithgareddau recriwtio a chadw. Mae gan y Cyngor enghreifftiau o fonitro costau ar y defnydd o staff asiantaeth. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn rhan o fframwaith corfforaethol ar gyfer asesu gwerth am arian. Nid yw'r Cyngor yn monitro a gwerthuso pa mor gost-effeithiol yw ei brif fentrau fel ei system recriwtio ar-lein a mentrau recriwtio amrywiol yn rheolaidd. Trwy beidio â chael trefniadau clir ar waith, nid yw'r Cyngor yn gallu asesu gwerth am arian ei weithgarwch recriwtio a chadw, gan gynnwys ei effaith.

19 Nid yw'r Cyngor yn systematig yn cofnodi dysgu nac yn rhannu arfer da ar ei weithgaredd recriwtio a chadw. O fewn y Cyngor mae cyfleoedd anffurfiol i ddysgu drwy ymgysylltu swyddogion AD â gwasanaethau. Trwy beidio â rhannu dysgu bob amser, efallai y bydd y Cyngor yn colli cyfleoedd i wella ei ddulliau o recriwtio a chadw a gwella gwerth am arian.

# Argymhellion

**A1** Dylai'r Cyngor sicrhau bod ganddo'r wybodaeth a'r data sydd eu hangen i'w alluogi i ddeall tueddiadau recriwtio a chadw presennol ac yn y dyfodol **(paragraffau 10 a 18)**.

**A2** Dylai'r Cyngor ddatblygu dull o asesu gwerth am arian ei ddulliau recriwtio a chadw **(paragraffau 18 a 19)**.

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Edrychwyd ar yr heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu wrth recriwtio a chadw staff. Roedd hyn yn cynnwys pa mor dda mae'r Cyngor yn deall yr heriau, y camau y mae'n eu cymryd i ymateb i'r heriau hyn, a sut mae'n adolygu gwerth am arian o'i ddulliau.

Ni edrychwyd ar y pwnc ehangach o gynllunio'r gweithlu.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Aethom ati i ateb y cwestiynau canlynol:

- A yw'r Cyngor yn deall ei heriau recriwtio a chadw?
- A yw'r Cyngor yn cymryd camau i fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw?
- A yw'r Cyngor yn adolygu gwerth am arian ei ddulliau o fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw?

### Meini Prawf

Rydym wedi asesu trefniadau'r Cyngor drwy ateb y cwestiynau archwilio uchod. Er mwyn ein helpu i wneud hynny, rydym wedi creu set o feini prawf archwilio sy'n esbonio 'sut olwg sydd ar dda'. Rydym wedi defnyddio'r meini prawf archwilio i'n helpu i ddadansoddi'r dystiolaeth a gasglwyd gennym o'n hadolygiad o dystiolaeth ddogfennol a'r cyfweliadau a gynhaliwyd gennym.

Cafodd ein meini prawf archwilio eu llywio gan gyfuniad o'n gwybodaeth a'n profiad a'n hymchwil i'r pwnc hwn. Fe'i llywiwyd hefyd gan ein sgyrsiau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol.

# Dulliau

Fe wnaethom gyfweld ag uwch swyddogion a'r aelod cabinet sy'n gyfrifol am ddatblygu a chyflwyno dull strategol y Cyngor o gyflawni ei heriau recriwtio a chadw.

Fe wnaethom hefyd gyfweld ag uwch swyddogion o dri gwasanaeth y Cyngor sydd wedi wynebu heriau recriwtio a chadw dwys.

Fe wnaethom hefyd adolygu ystod o ddogfennau sy'n berthnasol i'r cwestiynau archwilio yr oeddem yn ceisio eu hateb.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y modd y mae'r sefydliadau hyn yn defnyddio adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

# Ffurflen ymateb rheolwyr

| At ddefnydd Archwilio Cymru yn unig | |
|---|---|
| Corff a archwilir | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Enw'r archwiliad | Heriau recriwtio a chadw |
| Dyddiad cyhoeddi | 10 Mehefin 2026 |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod ganddo'r wybodaeth a'r data sydd eu hangen i'w alluogi i ddeall tueddiadau recriwtio a chadw presennol ac yn y dyfodol (paragraffau 10 a 18). | Bydd y Cyngor yn cryfhau ei drefniadau casglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata gweithlu er mwyn deall patrymau recriwtio a chadw yn fwy cyson. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r data sydd eisoes ar gael, cytuno ar set graidd o ddangosyddion gweithlu, a datblygu adroddiad rheolaidd i'r Tîm Arweinyddiaeth sy'n amlygu tueddiadau, meysydd risg a gwasanaethau | Rhagfyr 2026 | Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer | |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| | | lle mae pwysau recriwtio neu gadw yn fwy amlwg. Byddwn yn adolygu ac yn ymateb i dueddiadau ar lefel Gwasanaethau unigol ac ar lefel y Cyngor cyfan. | | | |
| **A2** | Dylai'r Cyngor ddatblygu dull o asesu gwerth am arian ei ddulliau recriwtio a chadw (paragraffau 18 a 19). | Bydd y Cyngor yn datblygu fframwaith gwerth am arian ar gyfer ei weithgareddau recriwtio a chadw. Bydd y fframwaith yn ystyried costau uniongyrchol ac anuniongyrchol, effeithiolrwydd sianeli recriwtio, amser i benodi, ansawdd ymgeiswyr, cyfraddau cadw ar ôl penodi, a'r defnydd o fesurau cadw megis datblygu gyrfa, gweithio hyblyg a chynllunio olyniaeth. Bydd y canfyddiadau'n cael eu | Mawrth 2027 | Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer | |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| | | defnyddio i lywio penderfyniadau buddsoddi a blaenoriaethau gweithlu yn y dyfodol. | | | |